# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 1 Rhagfyr 2011** |
| Amser: | **09:15 – 11:47** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_01_12_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman (Cadeirydd)**<br>**Angela Burns**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Keith Davies**<br>**Suzy Davies**<br>**Julie Morgan**<br>**Lynne Neagle**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Simon Thomas** |
| Tystion: | **Gregg Jones**<br>**Arwyn Watkins, Chair, National Training Federation Wales**<br>**Rachel Searle, National Training Federation Wales**<br>**Iestyn Davies, Federation of Small Business**<br>**Joyce M'Caw, Chief Executive, Careers Wales (North East Wales)**<br>**Steve Hole, Senior Manager, Careers Wales, Mid Glamorgan & Powys** |
| Staff y Pwyllgor: | **Claire Morris (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Anne Thomas (Ymchwilydd)** |

## 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2. Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion Ewropeaidd

2.1 Cafodd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf am faterion Ewropeaidd sy'n effeithio ar bortffolio'r Pwyllgor.

Camau i'w cymryd:

- Y Gwasanaeth Ymchwil i roi rhagor o wybodaeth am yr ystadegau am bobl ifanc nad oedd mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 2010.
- Y Gwasanaeth Ymchwil i roi rhagor o wybodaeth am gydweithio traws-Ewropeaidd i atal masnachu mewn plant.
- Y Gwasanaeth Ymchwil i roi rhagor o wybodaeth am arfer gorau yn Ewrop ar y ddarpariaeth o sgiliau peirianyddol (gan gynnwys dysgu yn seiliedig ar waith).

## 3. Gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: sesiwn dystiolaeth

3.1 Croesawodd y Cadeirydd y tystion. Holodd yr Aelodau y tystion am weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

Camau i'w cymryd:

- Cytunodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i roi rhagor o wybodaeth am pa mor aml y caiff eu haelodau eu gwahodd i ymuno â phwyllgorau cynllunio Rhwydweithiau 14-19 ac i gyfrannu at gynllunio'r ddarpariaeth 14-19 yn ardal y Rhwydwaith.

## 4. Gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: sesiwn dystiolaeth

4.1 Croesawodd y Cadeirydd y tystion. Holodd yr Aelodau y tystion am weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

Camau i'w cymryd:

- Cytunodd Gyrfa Cymru i gytuno i wirio a yw ysgolion dwy ffrwd yn wynebu anawsterau i gynnig yr ystod lawn o ddewisiadau.
- Cytunodd Gyrfa Cymru i roi'r ffigurau o gyflogwyr mewn sesiynau yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer Cymru gyfan ac hefyd i roi rhai enghreifftiau o brospectysau cyffredin.
- Cytunodd Gyrfa Cymru i roi gwybodaeth am y gwaith y mae Prifysgol Warwick yn ei wneud i ddiweddaru gwefan Gyrfaoedd Cymru gyda gwybodaeth am y farchnad lafur.

## 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn:

5.1 Cytunodd yr Aelodau ar gynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 6. Trafod y flaenraglen waith

6.1 Trafododd yr Aelodau yr amserlen ddrafft ar gyfer tymor y Gwanwyn.

## 7. Papurau i'w nodi

7.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.